Rhifyn 1

Hydref 2012

Cyfeillion Gwirfoddol

# Ffrindia'

yng Ngwynedd

- Rhowch eich ffydd mewn ffrind -

01341 422 575

07786 513 038

gwenlli@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com

## NEWYDDION

Mae'r cynllun yn parhau i ddatblygu, a bron i hanner cant o unigolion wedi gofyn am ein cefnogaeth ym Meirionnydd yn unig. Mae 18 o wirfoddolwyr brwdfrydig yn rhan o'r cynllun—rhai wrthi'n cael eu hyfforddi, a rhai wedi decrhau cyfeillio.

*Llun: rhai o wirfoddolwyr ardal Meirionnydd*



## HYFFORDDIANT

| Cymorth Cyntaf Brys (byr) | Cyflwyniad i Dementia a POVA | Sgiliau Cyfathrebu a Hyder |
|---|---|---|
| Dydd Iau 18.10.12 | Dydd Iau 8.11.12 | Dydd Iau 29.11.12 |
| 10.00-2.30 gyda chinio | 10.00-12.30 a chinio wedyn | 10.00-1.00 a chinio wedyn |
| Canolfan Prenteg, LL49 9SU | Clwb Rygbi Dolgellau LL40 1UU | Clwb Rygbi Dolgellau LL40 1UU |

Cysylltwch â Gwenlli i gadw'ch lle

Telir costau teithio'n ôl

**Dewch am gyfle i gymdeithasu a chyfarfod eich cyd-wirfoddolwyr yn o gystal â dysgu rhywbeth newydd!**

## Mae unigolion yn aros am wirfoddolwr yn:

Tywyn, Dolgellau, Y Bala, Llanbedr, Blaenau Ffestiniog, Abermaw, Fairbourne, Penrhyndeudraeth, Aberdyfi a Harlech.

*Allwch chi eu cyrraedd?*

## DIGWYDDIAD IECHYD DA— DOLGELLAU 19.10.12

Dewch i Ganolfan Hamdden Glan Wnion a Gorsaf Dân Dolgellau unrhyw bryd rhwng 10yb a 3yh— i weld dros 40 o fudiadau sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor, cyfle i gymryd eich pwysau gwaed, lluniaeth ysgafn, adloniant a llawer iawn mwy!

## AWYDD CWRDD AM BANED?

Rydym am roi tro ar gynnal 'cyfarfod gwirfoddolwyr' anffurfiol yn lleol i chi. Hoffech chi gwrdd â'r Cydlynydd a 'chydig o wirfoddolwyr eraill mewn caffi, i rannu syniadau, trafod materion cyfeillio a mwynhau paned? Bydd Gwenlli yn cysylltu â chi yn y dyfodol agos i awgrymu dyddiadau.

Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
Carers Outreach Service

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Gwynedd a Môn
age Cymru

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED